

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu  
(Ymgylgoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgylgoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021.

**Julie James AS**  
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**

**23 Tachwedd 2021**

## **1. Disgrifiad**

- 1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ('DMPWO') a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ('DNSPWO') (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'y Gorchymynion Gweithdrefn') yn gosod gofyniad statudol i ymgynghori â chyrrff allweddol yn ystod cam ymgynghori cyn-ymgeisio'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno.
- 1.2 Mae Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgynghoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021 ('Gorchymyn Diwygio 2021') yn diwygio darpariaethau yng Ngorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgynghoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 ('Gorchymyn 2021'). Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â 'Chorff Adnoddau Naturiol Cymru' (Cyfoeth Naturiol Cymru neu 'CNC') ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, sydd i fod i ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2021, wedi cael eu hepgor o'r Gorchymyn.

## **2. Materion o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

- 2.1 Mae'r Gorchymyn Diwygio hwn yn diwygio darpariaethau Gorchymyn 2021 mewn perthynas ag ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, cyn iddynt ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2021.
- 2.2 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Llywydd wedi cael ei hysbysu y daw Gorchymyn Diwygio 2021 i rym lai nag 21 diwrnod o ddyddiad ei osod.
- 2.3 Mae angen i Gorchymyn Diwygio 2021 ddod i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Mae hyn er mwyn diwygio darpariaethau Gorchymyn 2021 sy'n cyfeirio at fframwaith polisi (mewn perthynas â Nodyn Cyngor Technegol 15 newydd a'r Map Llifogydd cysylltiedig ar gyfer Cynllunio) na fydd yn weithredol at ddibenion cynllunio ar yr adeg y disgwylir i'r deddfwriaeth ddod i rym ar 1 Rhagfyr.

## **3. Y Cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Mae'r pwerau sydd eu hangen i wneud y Gorchymyn yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- 3.2 Mae pwerau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau ynghylch ymgynghori cyn-ymgeisio yn adran 61Z o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r ddarpariaeth honno'n caniatáu iddynt ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â phersonau penodedig cyn iddynt wneud cais cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad. Rhaid pennu'r mathau hynny o ddatblygiad mewn gorchymyn datblygu.
- 3.3 Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau ynghylch ymgynghori ar ôl y cam cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio darpariaethau amrywiol Deddf Cynllunio Gwlad Thref 1990. Mae adran 59(2)(b) a (3)(a) yn darparu ar gyfer gwneud gorchmynion datblygu sy'n ymdrin ag awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn rhoi caniatâd cynllunio. Mae adran 74(1)(c) yn darparu y caiff gorchymyn datblygu gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phersonau penodedig ynghylch cais cynllunio cyn gwneud penderfyniad yn ei gylch. O ran Cymru, mae'r pwerau hyn bellach wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Mae adran 62R o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i orchymyn datblygu wneud darpariaethau ynghylch ymgynghori gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a gyflwynir iddynt.
- 3.4 Mae adran 333(5B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu bod y weithdrefn ar gyfer offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn datblygu yn weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae adran 333(7) yn darparu pŵer i amrywio neu ddirymu unrhyw orchymyn drwy orchymyn dilynol.

#### *Ymgynghoriad o dan y DMPWO*

- 3.5 Mae'r DMPWO yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr ymgynghori â'r cyrff a restrir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwnnw cyn gwneud cais cynllunio (gweler erthyglau 2(1), 2B a 2D), ac i Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) ymgynghori â nhw cyn iddo wneud penderfyniad ynghylch cais cynllunio (gweler erthyglau 14, 15 a 15ZA).
- 3.6 Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad am ymgynghoriad cyn-ymgeisio'n berthnasol ond pan fydd y cais ar gyfer datblygiad a ystyrir yn 'ddatblygiad mawr', sy'n cael ei ddiffinio yn Erthygl 2 o DMPWO fel datblygiad sy'n cynnwys un neu ragor o'r canlynol, —
- (a) echdynnu a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer gwaddodion gweithio mwynau;
  - (b) datblygiad gwastraff;
  - (c) darparu tai annedd lle—
    - (i) bydd deg neu ragor o dai annedd yn cael eu darparu; neu
    - (ii) bydd y datblygiad yn cael ei wneud ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac ni wyddys a yw is-baragraff (c)(i) yn berthnasol i'r datblygiad;
  - (d) darparu adeilad neu adeiladau lle bydd y datblygiad yn creu 1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr neu fwy; neu
  - (e) datblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o un hectar neu fwy.

3.7 Rhaid i gorff a restrir yn Atodlen 4 yr ymgynghorir ag ef naill ai yn ystod y cam cyn-ymgeisio neu'r cam ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno ddarparu ymateb o sylwedd (gweler erthyglau 15A a 15B).

3.8 Yn ogystal, pan ymgynghorir â chorff a restrir yn Atodlen 4 gan ACLI mewn perthynas â mathau penodol eraill o gais, rhaid iddo ddarparu ymateb o sylwedd (gweler adran 100A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac erthyglau 15C a 15D). Dyma'r math o geisiadau y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol iddynt:

- ceisiadau am gymeradwyo materion a gedwir yn ôl (o fewn ystyr adran 92 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990);
- ceisiadau am unrhyw ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan unrhyw amod neu gyfyngiad y gwnaed caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddynt pan gafodd ei roi; a
- ceisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio (a wnaed o dan adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).

3.9 Mae'n ofynnol hefyd i gyrff a restrir yn Atodlen 4 lunio adroddiadau blynyddol i Weinidogion Cymru ynghylch eu cydymffurfiaeth â rhai o'u swyddogaethau mewn perthynas ag ymgynghori o dan y Gorchymyn (gweler erthygl 15F).

#### *Ymgynghoriad o dan y DNSPO*

3.10 Yn yr un modd, mae'r DNSPO yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr ymgynghori â'r corff a restrir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwnnw cyn gwneud cais cynllunio (gweler erthyglau 2, 7 a 9), ac i Weinidogion Cymru ymgynghori â nhw cyn iddynt wneud penderfyniad ynghylch cais cynllunio (gweler erthygl 22).

3.11 Rhaid i gorff a restrir yn Atodlen 5 yr ymgynghorir ag ef naill ai yn ystod y cam cyn-ymgeisio neu yn y cam ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno ddarparu ymateb o sylwedd o (gweler Erthyglau 10 a 23).

3.12 Mae'n ofynnol hefyd i gyrff a restrir yn Atodlen 5 lunio adroddiadau blynyddol i Weinidogion Cymru ynghylch eu cydymffurfiaeth â rhai o'u swyddogaethau mewn perthynas ag ymgynghori o dan y Gorchymyn (gweler erthygl 24).

#### *Darpariaethau'r DMPWO sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd*

3.13 Mae paragraff x a pharagraff n (Dehongliad o'r Tabl) o Atodlen 4 i DMPWO yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ('CNC') ynghylch cynigion ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau o fewn Parthau Llifogydd C1 a C2 yn y Map Cyngor Datblygu.

3.14 Byddai darpariaethau a amlinellir o dan Orchymyn 2021 yn diwygio gofynion y DMPWO ar gyfer ymgynghori. O 1 Rhagfyr 2021, byddent yn golygu ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) ynghylch datblygiadau sydd mewn parthau llifogydd yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, yn hytrach na'r Map Cyngor Datblygu.

*Darpariaethau yn y DNSPO sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd*

- 3.15 Mae paragraff u a pharagraff j (Dehongliad o'r Tabl) o Atodlen 5 i'r DNSPO yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) ynghylch cynigion ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau o fewn Parthau Llifogydd C1 a C2 yn y Map Cyngor Datblygu.
- 3.16 Byddai darpariaethau a amlinellir o dan Orchymyn 2021 yn diwygio gofynion y DNSPO ar gyfer ymgynghori. O 1 Rhagfyr 2021, byddent yn golygu ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) ynghylch datblygiadau sydd mewn parthau llifogydd yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, yn hytrach na'r Map Cyngor Datblygu.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Cyhoeddwyd polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar berygl llifogydd ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ochr yn ochr â Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, drwy lansiad anffurfiol er gwybodaeth ar 28 Medi 2021. Y bwriad oedd i'r pecyn hwn o newidiadau i bolisi perygl llifogydd, gan gynnwys y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, ddod i rym at ddibenion cynllunio ar 1 Rhagfyr. Mewn ymateb, mae awdurdodau lleol wedi nodi bod angen rhoi rhagor o gyfleoedd i ddarparu tystiolaeth leol benodol, gan gynnwys amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd, i lywio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio cyn y gall ddod i rym at ddibenion cynllunio.
- 4.2 Er mwyn sicrhau bod y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn gadarn ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau posibl, ni fydd yn dod i rym at ddibenion gwneud penderfyniadau cynllunio ar 1 Rhagfyr. Bydd y Map Cyngor Datblygu cyfredol yn parhau i gael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar ôl 1 Rhagfyr.<sup>1</sup>
- 4.3 **O ganlyniad, rhaid i ofynion deddfwriaethol y DMPWO a'r DNSPO i ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran ymgynghori, yn unol â'r parthau llifogydd a nodwyd ar y Map Cyngori Datblygu at ddibenion gwneud penderfyniadau cynllunio.**

---

<sup>1</sup>Gan fod polisiau cynllunio cenedlaethol a mapio ar berygl llifogydd yn becyn o fesurau, bydd y sefyllfa hon hefyd yn berthnasol i'r TAN 15 newydd na fydd bellach yn dod i rym at ddibenion gwneud penderfyniadau cynllunio ar 1 Rhagfyr. Bydd Nodyn Cyngor Technegol 15 Presennol 15: Datblygu a Pherygl o Llifogydd (dyddiedig 2004) yn parhau i fod yn berthnasol ar ac ar ôl 1 Rhagfyr 2021, gyda'r Map Cyngor Datblygu yn parhau i gael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag ef fel y map llifogydd at ddibenion cynllunio.

**4.4 Mae Gorchymyn Diwygio 2021 yn dileu'r darpariaethau yng Ngorchymyn 2021, sydd i fod i ddod i rym ar 1 Rhagfyr, i ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau sydd mewn perygl o lifogydd, yn unol â'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae'n sicrhau bod y gofyniad i ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn parhau i fod yn gyson â'r Map Cyngor Datblygu.**

4.5 Bydd y Map Cyngor Datblygu yn parhau i gael ei ddefnyddio hyd at yr adeg pan fydd y dystiolaeth a roddir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys casglu rhagor o ddata a gwaith ar asesiadau llifogydd, wedi cael ei chwblhau i lywio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac CNC i sicrhau bod y broses hon yn cael ei chwblhau cyn gynted â phosibl, gan gynnwys cyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen.

## **5. Ymgynghori**

5.1 Oherwydd yr angen i Orchymyn Diwygio 2021 ddod i rym cyn 1 Rhagfyr (h.y. cyn i ddarpariaethau ddod i rym a fyddai wedi diweddarau'r gofyniad i ymgynghori ag CNC fel ei fod yn cyfeirio at y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio), nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y darpariaethau diwygio hyn.

5.2 Er gwaethaf hyn, nid yw'r darpariaethau diwygio hyn yn cael unrhyw effaith. Mae Gorchymyn Diwygio 2021 yn dirymu'r diwygiadau i'r DMPWO a'r DNSPO (yng Ngorchymyn 2021) mewn perthynas ag ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd cyn iddynt ddod i rym. O ganlyniad, bydd ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn parhau i gael ei wneud yn unol â'r Map Cyngor Datblygu.

5.3 Drwy ddychwelyd mapio a deddfwriaeth yn ôl i'r sefyllfa ddiodyn, bydd yn caniatáu i ragor o waith gael ei wneud ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, a chydag awdurdodau lleol, i sicrhau ei fod yn gadarn ac yn addas i'r diben wrth ystyried modelau perygl llifogydd lleol sy'n ymgorffori amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd. Bydd yn sicrhau mewn modd effeithiol fod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol o ran ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau sydd mewn parthau llifogydd yn y map llifogydd newydd yn cael eu gwneud ar sail y dystiolaeth orau bosibl.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

- 6.1 Nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân wedi cael ei baratoi mewn perthynas â Gorchymyn Diwygio 2021, gan ei fod yn dirymu diwygiadau i'r DMPWO a'r DNSPO (yng Ngorchymyn 2021) mewn perthynas ag ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd cyn iddynt ddod i rym. Ystyrir bod hwn yn welliant ar sail ffeithiau ac yn un sy'n adlewyrchu'r bwriad polisi i barhau i ddefnyddio'r Map Cyngor Datblygu at ddibenion gwneud penderfyniadau cynllunio ar ôl Rhagfyr; gyda'r gofynion i ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn parhau i fod fel y maent ar hyn o bryd.
- 6.2 Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol cynhwysfawr yn cael ei gynnal fel rhan o offeryn statudol yn y dyfodol ynghylch diwygiadau i'r gofyniad i ymgynghori ag CNC ynghylch datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd ag CNC ac awdurdodau lleol i gasglu rhagor o dystiolaeth i lywio'r newidiadau hyn yn y dyfodol, cyn y gall Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio ddod i rym at ddibenion gwneud penderfyniadau.